

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CHURCH ROAD, RHISGA
GORCHYMYN TRAFFIG UNFFORDD ARBROFOL 2024

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ('y Cyngor'), wrth weithredu ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('y Ddeddf') a'r holl bwerau galluogi eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

- Gellir cyfeirio at y Gorchymyn hwn fel Gorchymyn (Traffig Unffordd Arbrofol) (Church Road, Rhisga) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2024, a bydd yn dod i rym ar 29 Ebrill 2024
- Ac eithrio'r hyn a ddarperir yn Erthygl 3, ni chaiff neb, ac eithrio ar gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd cwnstabl yr heddlu neu swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ymlaen, ac eithrio i'r cyfeiriad a ddangosir, ar hyd y rhan o'r ffordd a nodir fel traffig unffordd ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.
- Ni fydd dim yn Erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn gwahardd y cerbydau a ganlyn rhag mynd ymlaen, ac eithrio i'r cyfeiriad a ddangosir, ar hyd y rhan o'r ffordd a nodir fel traffig unffordd ar y cynllun sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn:
 - Cerbydau'r gwasanaethau brys
 - Cerbydau a ddefnyddir yn rhan o wasanaeth awdurdod lleol ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd neu wasanaethau amgylcheddol
 - Cerbydau a ddefnyddir yn rhan o wasanaeth cyfleustodau cyhoeddus ar gyfer cynnal a chadw cyfarpar yn unol â'r dyletswyddau statudol.
- Bydd y gorchymyn arbrofol yn weithredol am gyfnod o ddeunaw mis ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y Cyngor yn ystyried a fydd darpariaeth y gorchymyn hwn yn parhau i fod mewn grym am gyfnod amhenodol. Gall y Pennaeth Isadeiledd, gan weithredu ar ran y Cyngor, derfynu'r arbrawf os bydd angen gwneud hynny am resymau diogelwch, yn ei farn ef, o fewn y chwe mis cyntaf.

Rhodddwyd dan sêl gyffredin Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

ar _____ 2024

Gosodwyd sêl gyffredin
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
yma ym mhresenoldeb

Swyddog Awdurdodedig